

Dementia a Dychymyg

Crynodeb Ymchwil 3: Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi: Fframwaith Dadansoddi Gweithgareddau Celf i Bobl sy'n Byw â Dementia

Beth yw Dementia a Dychymyg?

Edrychodd Dementia a Dychymyg ar sut y gall celf gyfrannu at greu cymunedau cyfeillgar i ddementia. Edrychodd ein rhaglen waith ar sut mae gweithgareddau celf:

- Yn fuddiol i bobl sy'n byw gyda dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.
- Yn ein helpu i ddeall y profiad o fyw gyda dementia.
- Yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fyw gyda dementia.

Roedd Dementia a Dychymyg yn gynllun ar y cyd mawr ym maes y celfyddydau a gwyddoniaeth, gyda phrifysgolion, artistiaid, elusennau a darparwyr gwasanaethau celfyddydol yn cydweithio drwy bum project cysylltiedig â'i gilydd. Mae'r crynodeb ymchwil hwn yn rhoi sylw i un cam o broject.

Pam wnaethom ni'r project hwn?

Gall fod yn anodd dangos gwerth gweithgareddau celfyddydol, gan ei bod yn anodd pennu gwerth rhifyddol iddynt, a gallant fod yn dymor byr yn hytrach na thymor hir. Er mwyn edrych ar effaith economaidd y grwpiau celf, defnyddiwyd math o ddadansoddiad o'r enw Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi (Social Return on Investment - SROI).

Beth wnaethom ni?

Mae SROI yn fath o ddadansoddiad lle archwilir gwerth cymdeithasol gweithgaredd, o ran gwerth canfyddedig y gweithgareddau i'r bobl y maent yn effeithio arnynt. Gwnawn hyn drwy nodi gwerth y 'mewnbynnau' (er enghraifft, offer ac amser artistiaid) a 'chanlyniadau' (er enghraifft, gwella lles, cryfhau rhwydwaith cefnogaeth gymdeithasol). Er mwyn pennu gwerth i gysyniadau fel lles rydym yn defnyddio dirprwyon ariannol o ffynonellau cenedlaethol, a gyfrifir fel rheol drwy holiaduron neu arolygon parodrwydd i dalu sy'n cynnwys cwestiynau ar incwm a boddhad gyda bywyd. Er enghraifft, mae'r dulliau hyn wedi nodi bod y 'gwerth' o gael blwyddyn o hyder uchel yn cyfateb i £12,500.



Pwy gymerodd ran?

Yn yr astudiaeth roedd pobl sy'n byw gyda dementia yn mynd i grŵp celf dwy awr am ddeuddeg wythnos.

Cynhaliwyd y grwpiau celf mewn lleoliadau cymunedol, cartrefi gofal preswyl ac ysbytai yng Nghymru a Lloegr, ac fe wnaeth 125 o bobl â dementia a 146 o ofalwyr teulu a staff gymryd rhan.

Beth yw'r prif ganfyddiadau?

Yn yr astudiaeth Dementia a Dychymyg, nodwyd bod gwerth 'mewnbynnau' yn £189,498, a gwerth 'canlyniadau' yn £980,717. Mae'r gymhareb hon yn golygu, am bob £1 a fuddsoddwyd yn y gweithgareddau celfyddydol, cynhyrchwyd £5.18 o werth cymdeithasol. Roedd cyfran fwyaf y gwerth a gafwyd yn deillio o'r gwelliant yn lles y rhai a gymerodd ran.

Beth yw'r goblygiadau?

Mae rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n chwilio'n gynyddol am fathau ehangach o dystiolaeth economaidd ynghylch costau a manteision gweithgareddau, ac mae dadansoddiad SROI yn cynnig dull gwahanol i ddulliau mwy traddodiadol o werthuso canlyniadau astudiaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Darllenwch y cyhoeddiad llawn

Jones, C., Windle, G., & Edwards, R. T. (2018). Dementia and Imagination: A Social Return on Investment Analysis Framework for Art Activities for People Living With Dementia. *The Gerontologist*. <https://doi.org/10.1093/geront/gny147> (epub ahead of print).

